



Smart Technology, Made to Care

CAIR
Hanson Lane
Halifax, Yorkshire
HX1 4SD

+44 (0)1422 399 155

www.we-cair.com

hello@we-cair.com

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Mae Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol o fewn Cair yw ein cyfrifoldeb tuag at yr amgylchedd a'r gymuned.

Mae Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol (CCC) yn rhywbeth rydym yn adeiladu arno'n barhaus yma yn Cair. Rydym yn torri'r mowld ac yn arloesi, nid yn unig ein cynnyrch ond hefyd ym mhob darn o'r cwmni, gan gynnwys ffeindio'r ffordd gorau i gyflawni ein polisi CCC

Felly pam ydyn ni'n gwneud hyn a sut mae cyfraniad Cair i Gyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol yn effeithio arnoch chi? Yn syml, mae'r gymuned yn bwysig i ni ac rydyn ni'n gofalu am yr amgylchedd, fel yr ydym ni o hyd.

Gofalu am y gymuned

Yn 2013 gwnaethom benderfyniad dadleuol a radical i ehangu 'MK Consultants' a chychwyn Cair. Fel rheol, pan fydd busnes yn tyfu mae'n aml yn adleoli ac mae adeilad arbennig, i ymateb i'r gofynion newydd, yn cael ei adeiladu; fel arfer drwy ddefnyddio grantiau'r llywodraeth.

Adfywiwyd yr adeilad yn llwyr, y tu mewn a thu allan

Fe benderfynon ni gymryd agwedd wahanol a rhoi yn ôl i'r gymuned, lle wnaethom gychwyn. Penderfyniad eofn oedd aros yma yn Halifax, tref fach yn Swydd Efrog. Ar ôl dod ar draws hen ffatri ystafell ymolchi yng nghanol Halifax, gwelodd y Rheolwr-gyfarwyddwr botensial yr adeilad, a ddechreuodd y prosiect i ddod â bywyd yn ôl i'r hen adeilad.

O'r blaen



DEVELOPED AND MADE IN YORKSHIRE, UK



CAIR (UK) is an MK Consultants (UK) Ltd Company
Reg'd in England & Wales No. 8652937



Smart Technology, Made to Care

CAIR
Hanson Lane
Halifax, Yorkshire
HX1 4SD

+44 (0)1422 399 155

www.we-cair.com

hello@we-cair.com

Adfywiwyd yn llwyr, y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad. Ar ôl yr ailadeiladu, aeth y sgôr effeithlonrwydd ynni ar gyfer yr adeilad o E i B.

Ar ôl



Yn rhoi hwb i'r economi leol trwy hunan-ariannu ac adnewyddu adeilad diffaith. Oherwydd yr ehangu, daeth llawer o swyddi newydd ar gael i bobl leol, a gafodd effaith gadarnhaol ar y gymuned. Beth sy'n well, y mwyaf yr ydym yn tyfu ac yn ehangu fel cwmni, y mwyaf yw'r effaith gadarnhaol ar y gymuned leol!

Gofalu am yr amgylchedd

Mae ein heffaith ar yr amgylchedd yn chwarae rhan bwysig yn y ffordd y mae'r cwmni'n gweithredu. Gan edrych yn barhaus i mewn i ffyrdd y gallwn leihau ein hól troed carbon a chyfrannu at amddiffyn y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Gyda gweithredu ein polisi amgylcheddol sy'n cynnwys gweithdrefnau rheoli gwastraff cyfrifol, y polisi diffodd electronig a'r ymroddiad i fynd yn ddi-bapur ers 2014. Nid yw'r cyfraniadau amgylcheddol yn stopio yno yn unig. Rydyn ni'n dod o hyd i ffyrdd o roi yn ôl yn rheolaidd. O blannu dros 40 o goed yn ein maes parcio i osod paneli solar sy'n pweru ein hadeilad.

Paneli solar ar do adeilad Cair

DEVELOPED AND MADE IN YORKSHIRE, UK



CAIR (UK) is an MK Consultants (UK) Ltd Company
Reg'd in England & Wales No. 8652937



Smart Technology, Made to Care

CAIR
Hanson Lane
Halifax, Yorkshire
HX1 4SD

+44 (0)1422 399 155

www.we-cair.com

hello@we-cair.com



Nid yn ein polisi yn unig yw amddiffyn yr adnoddau sydd eu hangen i gynnal bywyd ar y Ddaear, ond yn ein hethos hefyd. Rydym yn lleihau ac yn ailgylchu pecynnau a ddefnyddir ar gyfer ein cynhyrchion, a hefyd yn dod o hyd i ddeunyddiau arloesol fel plastig bioddiraddadwy a ddefnyddir ar gyfer ein blwch cyflwyno Onyx. Rydym yn prynu yn gyfrifol, ac yn gofyn nad bod ein cyflenwyr yn darparu deunydd sydd yn gwrthdaro a hyn. Mae ein hathroniaeth yn dod lawr i'r pethau bach hefyd! Felly, mae ein tîm yn aml yn cerdded, beicio neu rannu car i'r gwaith, sydd i gyd yn cyfrannu at leihau ein hól troed carbon.

I gloi, yn Cair rydym yn cymryd Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol o ddifrif a byddwn yn aml yn hyrwyddo ein harferion amgylcheddol cynaliadwy ac yn parhau i gefnogi twf economaidd yn y gymuned.

DEVELOPED AND MADE IN YORKSHIRE, UK



CAIR (UK) is an MK Consultants (UK) Ltd Company
Reg'd in England & Wales No. 8652937